Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 13 Gorffennaf 2020, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Mike Van Der Eik ac Ifan Wyn.
Ynghyd â'r Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

275. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Maer bawb i gyfarfod rhithiol y Cyngor. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

276. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Maer, y Cynghorydd Gavin Harris a'r Cynghorydd Sir Huw Hilditch-Roberts ddatgan budd yn eitem agenda 19 – Cynllun Grant Trafnidiaeth Gynaliadwy Covid-19 Rhuthun fel perchnogion busnesau yn Rhuthun a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynigion a datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne fudd yn eitem 13 – Apêl Brys am gyllid Marie Curie fel codwr arian lleol.

263. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn neu'n ymwneud â'r digwyddiadau isod:

15.06 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys

29.06 Nifer o gyfarfodydd ynghylch y Felodrom trwy Zoom a chyfarfodydd ynghylch y system draffig un ffordd arfaethedig yn Rhuthun

264. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Cyfarfod Partneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych, cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom a thrafodaethau gyda Craig Berry, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch cynlluniau datblygu Carchar Rhuthun.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Dim i'w adrodd.
Cyng. Stephen Beach	Dim i'w adrodd.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Menna Jones	Cynorthwyo gyda phwyso a dosbarthu nwyddau'r Banc Bwyd, a pharatoi ar gyfer symud i'r lleoliad newydd ddiwedd y mis.
Cyng. Ian Lewney	Dim i'w adrodd.
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Dim i'w adrodd.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom.
Cyng. Mike Van Der Eik	Dim i'w adrodd.
Cyng. Ifan Wyn	Dim i'w adrodd.

279. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN
Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad ar ran y tri aelod sy'n cynrychioli ward Rhuthun.

280. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2020 yn gofnod cywir.*

281. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

282. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2020.
PENDERFYNWYD: *cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.*

283. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2020.
PENDERFYNWYD: *cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.*

284. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS
Hysbyswyd yr aelodau fod Gweithgor yr Hen Lys wedi cynnal cyfarfod cyn cyfarfod y Cyngor, a'i fod yn awyddus medru defnyddio'r adeilad unwaith eto pan allai fod ar agor ac ar gael i'w logi o 27 Gorffennaf.
PENDERFYNWYD*: derbyn y diweddariad.*

285. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CAIS FELODROM GOGLEDD CYMRU
Adroddodd y Maer fod yr ymgynghorwyr, LK2, a oedd wedi llunio adroddiad drafft a rannwyd gyda rhanddeiliaid, gyda gwahoddiad i ddarparu syniadau erbyn heddiw. Bydd y sylwadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad ac mewn atodiadau, a bydd y cyfan yn mynd i Beicio Cymru. Mynegodd aelodau bryder ynghylch trigolion Glasdir a rhoddwyd sicrwydd y byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal os penderfynir fod y cynllun yn hyfyw i fwrw ymlaen i'w ddatblygu.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

286. CYMDEITHAS CYNGHORAU TREF GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth Cyngor Tref Rhuthun gyda Chymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer 2020-21 am ffi o £65.00. Roedd cynrychiolwyr cyfredol y Cyngor Tref, y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson a'r Cynghorydd Steve Beach, o'r farn fod y Cyngor Tref yn elwa o'r aelodaeth.
PENDERFYNWYD*: adnewyddu aelodaeth Cyngor Tref Rhuthun gyda Chymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer 2020-21 am ffi o £65.00.*

287. APÊL BRYS AM GYLLID GAN MARIE CURIE
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried apêl am gyfraniad i'r elusen gan Victoria Hardy, Codwr Arian Cymunedol Gogledd Cymru, Marie Curie. Awgrymwyd y gallai'r Cyngor Tref gynorthwyo trwy wneud yr Hen Lys ar gael ar gyfer digwyddiadau codi arian i elusennau lleol a mudiadau gwirfoddol. Eiliwyd cynnig i wrthod cais Marie Curie a'i gefnogi gan aelodau.
PENDERFYNWYD*: gwrthod y cais i roi cyfraniad.*

288. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Gofynnwyd i'r aelodau gytuno ar ddyddiad cyfarfod ym mis Awst i ymdrin ag unrhyw faterion cynllunio a chyfrifon i'w talu.

PENDERFYNWYD: cynnal y cyfarfod ddydd Llun, 10 Awst, am 6pm gyda'r Maer, y Dirprwy Faer a'r darpar Ddirprwy Faer ac unrhyw aelodau eraill a oedd yn dymuno bod yn bresennol.

289. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2020.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2020.*

290. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA (bancio ar-lein)	Cyng. Dave Snape	Tanysgrifiad Microsoft Office 365 – Mawrth, Ebrill, Mai a Mehefin 2020	*	£75.84
BA	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau dyfrio – Mehefin 2020		£1,134.00
BA	Llanfwrog CIC	Gwasanaeth torri glaswellt – Gorffennaf 2020		£369.84
BA	Cyllid a Threthi Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£719.61
BA	Hill & Roberts	Ffi gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres – Gorffennaf 2020	*	£84.00
BA	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£41.90
BA	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol		£0.02
BA	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£0.14

O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

BA	BT Business	Band eang a ffôn Cwmwl	*	£67.19
BA	Richard Williams (Deganwy) Ltd	Eitemau ar gyfer yr Hen Lys	*	£4.14
BA	Scottish Power	Ffioedd trydan yn yr Hen Lys, 18.03.20 – 19.06.20		£235.94

291. DATGANIAD GWELEDIGAETH AR GYFER CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried Datganiad Gweledigaeth ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun fel rhan o wait har wefan y Cyngor Tref i sicrhau ei fod yn hygyrch, deniadol a llawn gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD**: ystyried y Datganiad Gweledigaeth drafft a thrafod a chytuno arno yng nghyfarfod mis Medi.*

292. CYNLLUN GRANT TRAFNIDIAETH GYNALIADWY COVID-19 RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ymateb y Cyngor Tref i ymgynghoriad Cyngor Sir Ddinbych ynghylch cynigion ar gyfer system draffig un ffordd ar hyd Stryd y Ffynnon a Stryd y Farchnad fel rhan o fesurau i gydymffurfio gyda gofynion diogelwch a chadw pellter cymdeithasol Covid-19 ac annog teithio egnïol. Mynegodd yr aelodau bryder am y llif traffig o Stryd y Castell a Stryd Clwyd, ac na fyddai busnesau ar y strydoedd hyn yn elwa o balmentydd lletach. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y gallai bysiau moethus yn cludo ymwelwyr ollwng eu teithwyr wrth Gloc Peers tra bo'r mesurau dros dro mewn grym. Dywedodd Cynghorwyr Sir Ddinbych ward Rhuthun eu bod yn cefnogi'r cynllun arfaethedig yn llwyr. Pwysleisiwyd fod y cynllun

arfaethedig, a fyddai'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, yn gynllun ar wahân i'r cynnig i waredu'r gylchfan o Sgwâr Sant Pedr a oedd wedi'i gynnwys yn nogfen Dyfodol Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: fod Cyngor Tref Rhuthun yn cefnogi'r cynllun mewn egwyddor.*

RHAN DAU
Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid ystyried yr eitem a ganlyn yn breifat.

293. CYNLLUNIAU EHANGU TREFTADAETH
Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad ynghylch cynigion amlinellol ar gyfer defnydd tymor hir Carchar Rhuthun gan gynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych, Craig Berry, Rheolwr Tîm Gwybodaeth Busnes, Samantha Williams, Rheolwr Treftadaeth Sir Ddinbych a'r Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol y Cabinet dros Dai a Chymunedau. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i gefnogi'r Carchar, a'r Archifau tra bo'n parhau yno tan 2025. Amlinellodd Craig Berry fod yr elfen dreftadaeth, sy'n cwmpasu 30% o'r safle, wedi denu dros 11,000 o ymwelwyr tra bo'r Archifau wedi denu oddeutu 800 o ymweliadau. Roeddynt yn awyddus i ymestyn y tymor busnes a hyd yr ymweliad trwy gynnwys cyfleusterau newydd y tu mewn a'r tu allan i safle'r carchar, yn cynnwys adeilad 46 Stryd Clwyd, a fyddai'n ategu'r hyn a fyddai'n cael ei gynnig yn yr Hen Lys.
PENDERFYNWYD*: nodi a chroesawu'r cynllun ehangu'r cynnig treftadaeth yng Ngharchar Rhuthun.*

294. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 21 Medi 2020 am 7pm.*